**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020 DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb ar gyfer:<br><br>Y Cynghorydd G. Collier, Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol yr Amgylchedd<br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y gwahoddwyd y Cynghorydd S. Thomas i'r cyfarfod i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt eitem rhif 10 (Adroddiad Cynnydd - Darpariaeth Cymorth Cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Fodd bynnag, nid oedd yn medru bod yn bresennol ac mae'r Cynghorydd K. Rowson, yr Is-gadeirydd, yn bresennol ar ei ran. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWAITH**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **MATERION CYFFREDINOL** | |
| **No. 5** | **CYNADLEDDAU A CHYRSIAU**<br><br>Ystyried gwahoddiadau i fynychu'r dilynol:-<br><br>Derbyniad a Sesiwn Wybodaeth gan Dîm Ymgysylltu y Fyddin yng Ngholeg Gwent - dydd Iau 13 Chwefror 2020.<br>PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd B. Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog fynychu.<br><br>Gweithdy Dysgu a Chyfarfod Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol (SSPG) - 19 a 20 Chwefror 2020.<br>PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd J. Mason, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor y derbyniwyd y gwahoddiadau dilynol hefyd ers paratoi'r adroddiad. Cadarnhaodd na fyddai unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r digwyddiadau:-<br><br>Cyngerdd Agoriadol Band y Lleng Brydeinig yng Nghymru - 9 Chwefror 2020 - Sir Fynwy<br><br>Gwobr Arglwydd Raglaw Gwent - 12 Mawrth 2020 - Barics Rhaglan, Casnewydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog, fynychu. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH - 11 MAWRTH 2020**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd/Aelod Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r flaenraglen gwaith ar gyfer 11 Mawrth 2020. | |
| **No. 7** | **CYLLIDEB REFENIW 2020/2021 I 2024/2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Ar wahoddiad yr Arweinydd, cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y setliad llywodraeth leol darpariaethol cadarnhaol ar gyfer 2020/21 a'i effaith ar gyllideb y Cyngor; cynigiodd y gyllideb fanwl ar gyfer 2020/21 a'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2021/22; a chynigiodd lefel cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 yn unol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Mae'r setliad darpariaethol cadarnhaol ynghyd â'r cyfleoedd a ddynodir yn rhaglen Pontio'r Bwlch yn golygu y gall y Cyngor fuddsoddi mewn blaenoriaethau allweddol, osgoi toriadau i wasanaethau a gwella ei gydnerthedd ariannol. Cyhoeddir manylion pellach y grantiau penodol ar gyfer llywodraeth leol ynghyd â setliad RSG terfynol ym mis Chwefror 2020.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd, dywedodd y Swyddog fod heriau ariannol sylweddol ym mlynyddoedd olaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, felly byddai'n ddarbodus sefydlu Cyllideb Trawsnewid y gellid ei defnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau ac ymchwilio opsiynau posibl ar gyfer arbedion yn y dyfodol a phontio'r bylchau sylweddol mewn cyllid.<br><br>Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd na fyddai'r grantiau a | |

| | | |
|---|---|---|
| | drosglwyddir i'r RSG yn cael eu neilltuo a chadarnhaodd y Swyddog na fyddai hynny'n digwydd ac mai mater i'r Cyngor fyddai penderfynu lle byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hyderus y byddai'r Cyngor yn gwneud y penderfyniad cywir. Felly argymhellodd fod y Pwyllgor Gweithredol yn nodi'r adroddiad ar y cam hwn a bod penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud yn y Cyngor ar 6 Chwefror 2020.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD** | |
| **No. 8** | **ADOLYGIAD O BOLISI DYRANNU CARTREFI BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Datrysiadau Tai a Chydymffurfiaeth.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad sy'n amlinellu'r polisi a newidiadau gweithredol a gynigir i Gynllun Dyrannu Cartrefi Blaenau Gwent, yn dilyn yr adolygiad diweddar o'r cynllun a'r broses ymgynghori. Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo; mae'r manylion a gynigir i'r polisi yn Atodiad 3.<br><br>Yng nghyswllt yr ymgynghoriad a gynhaliwyd, gofynnwyd cwestiwn am ymgysylltu Aelodau ac ymddiheurodd y Swyddog os na ymgynghorwyd yn uniongyrchol â phob aelod ar y cynigion. Fodd bynnag cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac maent yn rhoi cefnogaeth lawn i'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun.<br>Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Aelod Gweithredol yr Amgylchedd hefyd yn llwyr gefnogol i'r cynigion.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo'r newidiadau polisi a gynigir i Gynllun Dyrannu Tai Cartrefi Blaenau Gwent i'w weithredu ar 1 Ebrill 2020 (Opsiwn 1). | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| **No. 9** | **ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH TAI LEOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad sy'n amlinellu egwyddorion a gofynion allweddol y canllawiau gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi Strategaeth Tai Leol a soniodd hefyd am y cyfle posibl ar gyfer cydweithio gydag awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.<br><br>Mae'r Strategaeth Tai Leol yn nodi gweledigaeth tai hirdymor y Cyngor o ran y mathau o dai yr ydym yn edrych ar eu hadeiladu dros y 5 mlynedd nesaf. Dywedodd fod tai ar frig yr agenda gwleidyddol ar hyn o bryd, gan effeithio ar draws pob portffolio, a bod y Strategaeth Tai Leol yn ddogfen bwysig iawn i'r Cyngor. Gan edrych ar y tymor hirach mae cyfle i geisio dull gweithredu mwy rhanbarthol ac mae adran 2.12 yr adroddiad yn amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Fodd bynnag, wrth symud tuag at ddull cydweithio, tanlinellodd yr Aelod Gweithredol bwysigrwydd sicrhau y caiff anghenion lleol eu cyflawni.<br><br>Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy ddweud fod y pwyllgor Craffu wedi ystyried yr adroddiad a chymeradwyo y dewis a ffafrir, Opsiwn 2.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gydweithio gydag awdurdodau lleol ar draws Gwent i ymchwilio'r posibilrwydd o gynhyrchu Strategaeth Tai Ranbarthol a chynllun gweithredu leol (Blaenau Gwent) (Opsiwn 2). | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | |
| **No. 10** | **ADRODDIAD CYNNYDD - DARPARIAETH CYMORTH CLUDIANT GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar wahoddiad yr Arweinydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad sy'n rhoi dadansoddiad o'r galw presennol ac amlinellodd argymhellion ar gyfer costau posibl yn y dyfodol ar gyfer dinasyddion yn defnyddio cludiant yn seiliedig ar gostau trafnidiaeth cyhoeddus cymharol. Mae'r adroddiad yn dilyn cyflwyno'r Polisi Cymorth Cludiant o fis Ebrill 2019 gan gynnal asesiadau cymhwyster ar gyfer dinasyddion newydd a phresennol. Yn dilyn cwblhau'r asesiadau hyn, cytunwyd y rhoddir adborth i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Yn nhermau'r cefndir, dywedodd fod Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cludo 190 dinesydd y dydd 'i ac o' safleoedd opsiynau cymunedol, 120 dinesydd y dydd ar gyfartaledd. Yn hanesyddol, darperir cymorth cludiant i ddinasyddion sy'n mynychu opsiynau cymunedol heb unrhyw asesiad ffurfiol o angen i ddefnyddio cludiant o'r fath, h.y. bu hawl awtomatig beth bynnag yw sefyllfa unigolyn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai un o nodau allweddol y Gyfarwyddiaeth yw cynyddu annibyniaeth a gostwng dibyniaeth dinasyddion er mwyn galluogi unigolion i fyw a theithio'n annibynnol o fewn eu cymunedau. Nid yw'n ddyletswydd statudol ar Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cludiant ond mae ganddynt ddyletswydd i ddiwallu'r angen hwnnw os na all yr angen gael ei gyflawni gan adnoddau yr unigolyn ei hun neu adnodd cymunedol. Ymhellach, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fe wnaethom fabwysiadu egwyddor cynnal asesiad seiliedig ar gryfder sy'n ystyried adnoddau dinasyddion, yn cynnwys mynediad i'w cerbyd symudedd eu hunain, pas bws neu hawl i fudd-dal.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at adrannau 2.4 a 2.5 yr adroddiad sy'n dweud fod galw wedi gostwng yn Ebrill 2019 a bod yr Adran wedi medru rhoi'r gorau i un cerbyd, gan wneud y dyraniad cyllideb presennol am gludiant opsiynau cymunedol yn £321k.<br><br>Dywedodd y bydd Aelodau hefyd yn nodi y cynhaliwyd 149 asesiad gan weithwyr cymdeithasol i benderfynu ar gymhwyster a chaiff manylion hyn eu hamlinellu yn adran 7 yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'r ffigurau wedi newid ers paratoi'r adroddiad ac mae nawr 101 o unigolion yn cael mynediad annibynnol i opsiynau cymunedol. Barnwyd bod 24 o unigolion yn gymwys ac y byddent yn cael cludiant ac am ddim a barnwyd fod gan 14 amgylchiadau | |

| | | |
|---|---|---|
| | eithriadol yn wreiddiol ond bod hyn yn anffodus wedi gostwng i 11 yn ddiweddar oherwydd marwolaeth tri ohonynt, a rydym yn gofyn am godi tâl am ddefnyddio cludiant opsiynau cymunedol ar yr 11 unigolyn hyn.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad sy'n rhoi rhai o sylwadau dinasyddion sy'n cael mynediad annibynnol i'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Er mwyn darparu ar gyfer hyn a chefnogi rhieni, cadarnhaodd y cafodd yr oriau agor y ddau ben i'r dydd er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy hyblyg.<br><br>Cyfeiriodd wedyn at yr opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad ac argymhellodd Opsiwn 1. Mae hyn yn gydnaws gyda Pholisi Incwm 2014 y Cyngor sy'n argymell adfer cost llawn lle'n briodol. Dywedodd fod Opsiwn 2 yn anelu i godi cost gyfwerth â chostau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer defnyddio'r cerbydau. Byddai'r ddau Opsiwn hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ostwng y fflyd bresennol o 8 cerbyd i 4 a sicrhau model mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, gallai Opsiwn 3 oedd yn argymell y 'status quo' cyn Ebrill 2019 arwain at amcangyfrif cost ychwanegol i'r gyllideb o tua £90k pe byddai pob dinesydd sy'n dod i'r gwasanaeth drwy ddulliau eraill yn dychwelyd i ddefnyddio cymorth cludiant opsiynau cymunedol.<br><br>Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ben drwy ddweud pe na chyflwynir ffi ar yr 11 unigolyn sy'n defnyddio cymorth cludiant opsiynau cymunedol, yna byddai'n annheg i'r 135 o unigolion eraill sydd naill ai'n gymwys dan y polisi ar gyfer cludiant am ddim neu'r rhai sy'n cyrraedd opsiynau cymunedol yn annibynnol.<br><br>Ar wahoddiad yr Arweinydd, rhoddodd y Cynghorydd K. Rowson, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol, y rhesymau am yr argymhelliad arall a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Craffu.<br><br>Dywedodd fod yr aelodau o'r Pwyllgor a bleidleisiodd am yr argymhelliad arall wedi gwneud hynny oherwydd y teimlent fod y penderfyniad blaenorol ar gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a Rhwng y Cartref a'r Coleg wedi gosod cynsail ar gyfer y weinyddiaeth.<br><br>Eu dadl oedd y byddent, drwy bleidleisio ar gyfer Opsiwn 1 neu 2, yn cosbi'n annheg rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned. Fe | |

wnaethant hefyd ddweud nad unig ochr y stori yw'r gwaith da a wnaed gan yr Adran wrth gasglu'r wybodaeth, ac y byddid yn rhoi pwysau enfawr ar rai o deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth.

Yn olaf, oherwydd setliad ariannol llawer gwell y Cyngor gyda chynnydd o £4 miliwn mewn cyllid, nad oedd cyfiawnhad digonol dros yr arbediad arfaethedig o £100,000 yn yr achos hwn, gan fod potensial i ddefnyddwyr beidio mynychu opsiynau cymunedol yn llwyr, a gallai hyn effeithio ar eu llesiant.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr iawn ac yn dystiolaeth o faint o ymgysylltu a wnaed gan yr Uwch Dîm Rheoli mewn Gwasanaethau Oedolion.

Roedd wedi dilyn cynnydd a'r trafodaethau a gynhaliwyd ar y Polisi ers 2017 er mwyn sicrhau fod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu trin yn deg, a bod yr holl gwestiynau ar ddiogelu, arwahanrwydd ac unigrwydd yn cael eu hateb.

Cyfeiriodd wedyn at yr opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad a dywedodd, er bod Opsiwn 1 yn dilyn Polisi Incwm y Cyngor, h.y. adennill cost lawn, teimlai y gallai'r Opsiwn hwn achosi caledi ariannol diangen ac fel canlyniad ni fedrai ei gefnogi.

Yng nghyswllt Opsiwn 3, dywedodd yr Aelod Gweithredol er ei fod wedi rhoi ystyriaeth i farn y Pwyllgor Craffu, na fedrai gefnogi'r argymhelliad arall a dywedodd ei fod yn synnu gan na fu unrhyw gyfeiriad ers 2015 at unrhyw gyfarfodydd i ddychwelyd i'r status quo.

Dywedodd fod Opsiwn 2 yn adlewyrchu polisi'r Cyngor i sicrhau fod ein dinasyddion yn cadw eu hannibyniaeth ac y byddai'n cynorthwyo'r bobl fwyaf bregus sy'n defnyddio ein gwasanaethau i deithio yn y dull a ddewisant. Fel canlyniad, daeth i ben drwy ddweud mai Opsiwn 2 oedd yr Opsiwn a ffafriai, a chredai ei fod yn gyfaddawd rhesymol ac yn cydnabod faint o ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan yr Adran.

Canmolodd yr Arweinydd yr Adran ar gyflwyno adroddiad clir a dealladwy. Yng nghyswllt sylwadau'r Pwyllgor Craffu, dywedodd ei fod yn anodd cymharu hyn gyda chludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a Rhwng y Cartref a'r Coleg. Yn Ionawr 2019 roedd

| | | |
|---|---|---|
| | trafodaethau'n ymwneud â thoriadau posibl i gyllideb ac arbedion a gyflwynir flwyddyn ar flwyddyn ar gyfer eu hystyried. Yn dilyn ymgynghori manwl a thrafodaethau maith ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, ynghyd â ffactorau lliniaru eraill, penderfynwyd na fyddai Cludiant Cartref i'r Ysgol/Coleg mwyach yn cael ei roi gerbron y Cyngor ar gyfer arbedion posibl fel rhan o broses gosod y gyllideb. Rhoddodd y penderfyniad hwn dawelwch meddwl i rieni a pherthnasau ond byddai hefyd yn arbed amser i swyddogion wrth orfod paratoi'r data i baratoi ar gyfer y broses o osod y gyllideb.<br><br>Wedyn gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad os y bwriedid bob amser ystyried y potensial ar gyfer polisi codi tâl pan gynhaliwyd yr adolygiad o gymorth cludiant gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol pan gymeradwywyd y Polisi Cymorth Cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2019, y cytunwyd hefyd y byddai Swyddogion yn edrych ar gostau posibl i'r gwasanaeth ar sail adennill costau llawn neu fel arall gostau tebyg i drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn datblygu ffioedd ar gyfer y dinasyddion hynny sy'n gymwys i barhau i gael mynediad i gludiant. Os nad yw Aelodau yn dymuno gweithredu system codi tâl, yna gellid fod wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda'r adolygiad bryd hynny.<br><br>Canmolodd Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y ffordd y cafodd yr adolygiad ei drin. Dywedodd mai'r mater allweddol ar gyfer y dyfodol oedd sicrhau mynediad i'r gwasanaeth er budd y gymuned a'i fod yn hyderus y byddai hyn yn parhau.<br><br>Cefnogodd yr Aelod Gweithredol Addysg y sylwadau a wnaed a dywedodd fod faint o ymgysylltu a fu yn galonogol iawn, a dywedodd ei fod yn cefnogi Opsiwn 2.<br><br>Cadarnhaodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ei fod yn cefnogi Opsiwn 2.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth asesu anghenion dinasyddion yn unol â'r Polisi Cymorth Cludiant, yn cynnwys canlyniadau yr asesiadau. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn argymell | |

| | | |
|---|---|---|
| | mai dim ond y dinasyddion hynny sy'n parhau'n gymwys am gymorth cludiant sy'n parhau i dderbyn cymorth yn rhad ac am ddim. Mae'r dinasyddion hynny y bernir eu bod yn anghymwys ond sydd ag amgylchiadau eithriadol yn parhau i dderbyn cymorth ond ar ffi yn seiliedig ar gostau tebyg a ddangoswyd yn gynharach yn yr adroddiad, gan adlewyrchu ffioedd trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai'r ffioedd yn seiliedig ar gyfluniad trafnidiaeth yn y dyfodol sydd ei angen i ddarparu model gwasanaethau Opsiynau Cymunedol yn y dyfodol (Opsiwn 2). | |
| | **EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | |
| **No. 11** | **BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Opsiwn 1). | |